# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 4 Gorffennaf 2013 i'w hateb ar 9 Gorffennaf 2013

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Prif Weinidog dynnu sylw at y prif wersi sydd wedi cael eu dysgu yn sgîl adolygiadau o bolisi'r 1980au ar ardaloedd menter wrth sefydlu'r gyfres newydd o ardaloedd menter Cymru? OAQ(4)1172(FM)

2. **Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am allu pobl sy'n ceisio prynu eu cartref cyntaf i wneud hynny? OAQ(4)1170(FM)

3. **Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau ambiwlans ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)1185(FM)

4. **Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau cynllunio ynghylch yr iaith Gymraeg? OAQ(4)1173(FM)**W**

5. **Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Pa gysylltiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gael â'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu? OAQ(4)1174(FM)

6. **Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo defnyddio Banc y Gymdeithas Fawr gymaint â phosibl ymysg cyrff anllywodraethol yng Nghymru? OAQ(4)1171(FM)

7. **Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau sydd wedi'u cynnal rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch y cynigion i breifateiddio'r Post Brenhinol? OAQ(4)1187(FM)

8. **Julie James (Gorllewin Abertawe):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella amodau gwaith ar gyfer gweithwyr gofal yng Nghymru? OAQ(4)1186(FM)

**9. Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer gofal iechyd sylfaenol? OAQ(4)1181(FM)

**10. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn ystod 2013 i fynd i'r afael â gordewdra plant yng Nghymru? OAQ(4)1179(FM)

**11. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gost meddyginiaethau i'r GIG? OAQ(4)1184(FM)

**12. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** Pa drafodaethau a gaiff y Prif Weinidog â Gweinidogion newydd ynghylch cyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru? OAQ(4)1183(FM)

**13. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gymryd rhan mewn chwaraeon a hamdden gan gymunedau Du a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru? OAQ(4)1178(FM)

**14. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i gefnogi'r diwydiant twristiaeth yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)1169(FM)

**15. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol Ysbyty Gellinudd yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)1175(FM)